

## PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 12 Mai, 2021.

Mae'r Agenda [ar gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd Miss. A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorwyr Ms. J. Aviet, J.C. Bird, Ms. B.E. Brooks, Mrs. C.A. Cave, Mrs. S.M. Hanks, Mrs. R. Nugent-Finn, A.C. Parker, Mrs. S.D. Perkes a L.O. Rowlands.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio); Ms. H. Smith (Cynrychiolydd o'r Gweithgor / Panel Tenantiaid) a Ms. B. Hunt (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a Bro Morgannwg Cynrychiolydd).

### EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cynghorydd Ms. J. Aviet yn cael ei benodi'n Is-gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

### EITEM AGENDA 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Mrs. G. Doyle a Mr. A. Raybould (Cynrychiolwyr o'r Gweithgor / Panel Tenantiaid).

### EITEM AGENDA 3. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill, 2021 fel cofnod cywir.

### EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### EITEM AGENDA 5. CYFLWYNIAD: HWB CYNGOR TAI BRO MORGANNWG / SIOP UN STOP –

ARGYMHELLWYD – Nodi'r cyflwyniad ar Hyb Cynghori Tai / Siop Un Stop Bro Morgannwg.

### Rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL (ASB) A CHYDLYNIANT CYMDEITHASOL – CYDWEITHIO RHWNG LANDLORDIAID CYMDEITHASOL A DIOGELWCH CYMUNEDOL (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r datblygiadau o ran cydweithio rhwng y tîm Diogelwch Cymunedol a landlordiaid cymdeithasol.
- (2) Nodi'r effaith ar y tîm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Chydlyniant Cymunedol a achoswyd gan effeithiau Covid-19 a sut y parhaodd y tîm i gefnogi ymateb y Cyngor i'r pandemig.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. DIWEDDARIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU'R STRATEGAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Gweithredu Partneriaeth Bro Ddiogelach.
- (2) Nodi'r gwaith partneriaeth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â throseddu ac anhrefn ym Mro Morgannwg.

Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 8. TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU 2020/21 Y 4YDD CHWARTER AC AMSERLEN Y BLAENRAGLEN WAITH FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2021/22 (RG) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Y dylid cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i C yr adroddiad.
- (2) Nodi Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad D yr adroddiad, yng nghyd-destun cynnwys Blaenraglen Waith Flynyddol Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel 2021/22.
- (3) Nodi Blaenraglen Waith y 4ydd Chwarter sydd ynghlwm yn Atodiad Ch yr adroddiad.

(4) Cymeradwyo Blaenraglen Waith Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad DD yr adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor, yn unol â'r newidiadau canlynol:

- Y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid: Cynllun Cyfiawnder Ieuencid (i ymgorffori Cynllun Gweithredu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid) yn cael ei symud o fis Gorffennaf i fis Hydref 2021 yn Atodlen y Rhaglen Waith;
- Bod y dyddiadau a roddwyd ar gyfer adroddiad Gwaith Trin Pecyn Marcross y cyfeirir ato yn yr adran "Adroddiadau / Cyflwyniadau / Ymweliadau Eraill y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor" o Atodlen y Rhaglen Waith yn cael eu dileu.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2&3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(4) Er gwybodaeth.